# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 30 Hydref 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, G.Nutt, K.Jones, A.Thomas, C.Griffiths, K.Warren, H.Jones, C.Furlow-Harris, R.Headon, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.J.Taylor a/ac A.Wingrave |

---

1. **DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Rahaman - Parthed Eitem rhif 10 ar bapurau Bwrdd y Cabinet - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019: Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-2019 ac Estyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 tan fis Ebrill 2020, gan ei fod yn Drysorydd/Ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol BME CNPT.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Medi a 2 Hydref, 2019.

3. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA Y CABINET (ADRODDIADAU Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20

Holodd aelodau ynghylch y gorwariant yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref, yn enwedig y rheswm pam mae'n rhaid cludo gwastraff pren i Ddyfnaint i'w ailgylchu. Esboniodd swyddogion mai'r rheswm dros hyn oedd oherwydd bod gan Ddyfnaint fwy o le i ailgylchu pren, a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at dargedau ailgylchu Castell-nedd Port Talbot. Roedd swyddogion yn yr is-adran amgylchedd yn gweithio gydag Aelod y Cabinet i leihau'r gwariant ar ailgylchu wrth barhau i gynyddu'r swm sy'n cael ei ailgylchu.

Trafodwyd tanwariant a gorwariant yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Nodwyd bod cael gwared ar rai o adolygiadau Llywodraeth Cymru wedi arwain at gynnal adolygiadau annibynnol. Roedd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd wedi arfer â phecynnau gofal penodol, ac i ddechrau, nid oeddent bob tro yn gefnogol o newid y rhain.

Esboniodd swyddogion fod salwch a gwyliau banc wedi rhoi llawer o bwysau ar lwythi gwaith yn y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Cafodd casgliadau sbwriel presennol eu hailystyried, a threfnwyd i gwtogi'r gyllideb gwastraff ar gyfer 2020/21.

**Mynediad i Gyfarfodydd**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitem fusnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

Trafododd yr aelodau y pwysau cyllidebol presennol mewn perthynas ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Henadur Davies.

Ailddechreuwyd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

Roedd meysydd eraill o'r drafodaeth yn cynnwys:

- Sefyllfa'r arian wrth gefn
- Y Gronfa Gofal Canolraddol - 'Y Prosiect Esgeulustod'
- Lleoliadau y tu allan i'r sir
- Gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG).

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Monitro Rheolaeth y Trysorlys 2019-20

Trafodwyd buddsoddiad gan y cyngor, a nododd yr aelodau er bod gan Loegr Bwerau Cymhwysedd Cyffredinol sy'n ei galluogi i fuddsoddi mewn unrhyw brosiect y craffwyd arno, nid oes gan Gymru'r pwerau hyn. Mae hyn yn golygu bod y broses buddsoddi mewn ardaloedd megis canolfannau siopa neu gelf, er enghraifft, yn anos i gynghorau yng Nghymru.

Er bod aelodau'n cefnogi buddsoddiadau sylweddol yn gyffredinol, roedd y risgiau presennol a oedd ynghlwm â'r prosiect yn rhy sylweddol, yn ogystal â'r diffyg Pwerau Cymhwysedd Cyffredinol, a fyddai'n cael eu cynnwys wrth gyflwyno'r Ddeddf Llywodraeth Leol newydd o bosib. Ar hyn o bryd mae angen i'r cyngor ddibynnu ar y pwerau lles cyffredinol sy'n bodoli o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Trafodwyd caffael darnau o gelf. Yn ogystal â'r angen am gyfraniad yr archwilwyr a chynhyrchu achos busnes llawn, pwysleisiodd swyddogion yr angen i geisio cael enillion ar fuddsoddiadau sy'n sail i'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019: Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-2019 ac Estyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 tan fis Ebrill 2020

Trafododd yr aelodau y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 wrth fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb

y Sector Cyhoeddus, yn unol â'r amcanion cydraddoldeb a amlinellwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-19.

Esboniwyd rôl yr Ymgynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol, yn ogystal â'r person y mae angen iddynt adrodd iddo ac ym mhle y byddant wedi eu lleoli.

Roedd Cadeirydd Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gofnodi ei bod hi, a chynrychiolydd o Unsain, wedi cymryd rhan mewn digwyddiad ar gyfer staff y cyngor i ddathlu 100 mlynedd o'r bleidlais i ferched, yn ogystal â'r cyfranogwyr a restrwyd yn yr adroddiad.

Trafodwyd gwaharddiadau ymysg plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a nododd aelodau fod gan Gastell-nedd Port Talbot y nifer uchaf o blant AAA yng Nghymru. Nodwyd bod bywyd cartref anhrefnus yn cyfrannu at y gwaharddiadau hyn, felly mae angen rhoi amrywiaeth o ddulliau cefnogi ar waith, gan gynnwys cyfranogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd y pynciau trafod eraill yn cynnwys:

- Sefyll arholiadau TGAU yn gynnar yng nghyfnod allweddol 4
- Gwaharddiadau parhaol a strategaethau atal
- Data perfformiad Cymru Gyfan
- Cefnogaeth â Thaliadau Uniongyrchol

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 4. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2018-19</u>

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**